Grantiau'r Celfyddydau i Unigolion Creadigol Proffesiynol

# Datblygiad Proffesiynol

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio.
Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Datblygiad Proffesiynol

## Pwrpas

Galluogi unigolion creadigol proffesiynol i fynychu hyfforddiant, cyfoethogi eu harferion creadigol a buddsoddi yn y sgiliau a fydd yn galluogi iddynt feithrin gyrfa gynaliadwy yng Nghymru.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Rydyn ni am gefnogi dulliau arloesol, dychmygus, ond priodol o'ch helpu chi i wella'ch sgiliau, bod yn fwy cynaliadwy ac yn fwy gwydn.

Rydyn ni'n awyddus i feithrin amgylchedd cefnogol lle gall unigolion creadigol proffesiynol greu'r gwaith gorau posibl – ac rydyn ni am eich cynorthwyo chi ar adegau allweddol yn eich gyrfa. Rydyn ni'n meddwl y bydd darparu'r cymorth hwn yn helpu i gadw dawn greadigol yng Nghymru.

Rydyn ni am gefnogi prosiectau sy'n galluogi unigolion creadigol proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau creadigol a thechnegol er mwyn codi ansawdd eu gwaith artistig. Mae hyn yn gallu golygu mynychu cwrs hyfforddi cydnabyddedig o fewn y diwydiant, mynychu dosbarth meistr, cymryd rhan mewn set dysgu ar waith, neu ymgymryd â chyfleoedd i hyfforddi, mentora neu ddarparu prentisiaethau creadigol.

Rydyn ni am i chi allu ennill bywoliaeth gynaliadwy trwy'ch gwaith a datblygu yn bellach eich gyrfa yng Nghymru. Er mwyn gwireddu hyn, rydyn ni am gefnogi prosiectau sy'n cryfhau ochr busnes eich gwaith, a hynny o bosibl trwy eich cynorthwyo chi i amrywio i farchnadoedd newydd, neu trwy ddod o hyd i ddulliau eraill o gynhyrchu incwm. Gallai hynny olygu eich cynorthwyo chi i ddatblygu dull newydd o gyflawni eich busnes neu'ch ffordd gyfredol o weithio, neu eich helpu chi i weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Mae diddordeb gennym gynorthwyo amrywiaeth eang o brosiectau trwy'r maes gwaith hwn. Rydyn ni am i chi ddweud wrthym am eich anghenion o ran datblygiad proffesiynol gan ddweud pam taw'r prosiect rydych yn gwneud cais ar ei gyfer yw'r ateb iawn i chi.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gefnogi mathau penodol o brosiectau. Mae hyn yn golygu, pan fydd angen i ni ddewis rhwng prosiectau cymwys o safon debyg, y byddwn ni'n blaenoriaethu'r canlynol:

- Prosiectau sy'n creu cyfleoedd busnes i unigolion creadigol proffesiynol gyrraedd marchnadoedd newydd neu agor posibiliadau newydd ar gyfer eu gwaith, er enghraifft eich galluogi chi i dderbyn gwahoddiad swyddogol i fynychu ffair y celfyddydau gweledol neu grefftau, arddangosfa neu sioe'r celfyddydau perfformio sy'n gydnabyddedig yn y DU

- Prosiectau sy'n helpu unigolion creadigol proffesiynol i feithrin modelau busnes newydd a chadarnach, a dulliau newydd o feithrin gyrfaoedd cynaliadwy

- Prosiectau sy'n helpu unigolion creadigol proffesiynol i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i integreiddio technolegau newydd i'w harferion

- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau ym maes cyfarwyddo, coreograffi, curadu, rhaglennu ac ysgrifennu beirniadol

- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn y bau gyhoeddus

- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i greu gwaith ar gyfer plant a phobl ifanc

- Prosiectau sy'n datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda theuluoedd / creu gwaith ar gyfer cynulleidfaoedd o deuluoedd

- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella gwybodaeth a sgiliau ymysg pobl sydd eisoes yn gweithio'n broffesiynol ym maes y celfyddydau ar gyfer lleoliadau iechyd a lles, er mwyn cyfoethogi eu datblygiad, a chyflwyno prosiectau'r celfyddydau ar gyfer iechyd a lles

- Prosiectau sy'n ymestyn ac yn dwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth am amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant

- Prosiectau sy'n datblygu ac yn gwella sgiliau busnes a rheoli (gan gynnwys cynllunio busnes, codi arian, marchnata a chyrsiau byrion Rhaglenni Arwain Clore).

Mae cyllid i dderbyn gwahoddiad i sioe gydnabyddedig yn y diwydiant cerddoriaeth ar gael trwy ein maes gwaith Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth.

## Prosiectau na fyddwn yn eu cynorthwyo

Ni fyddwn ni'n cynorthwyo cyrsiau llawn-amser neu ran-amser ar gyfer israddedigion nac ôl-raddedigion mewn sefydliadau addysg bellach neu addysg uwch. Ni fyddwn yn ariannu tiwtora, gwersi na hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer unigolion chwaith.

## Gofynion

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau ym maes Datblygiad Proffesiynol, a bydd hyn yn eich cynorthwyo i lenwi'ch ffurflen gais.

## Pwy gaiff wneud cais

Gallwch wirio a ydych chi'n gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen Cychwyn Arni.

### Y Cyllid sydd ar Gael

Gallwch ymgeisio am rhwng £250 a £5,000. Gallwch gyflwyno cais am hyd at 90% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Os ydych chi'n cyflwyno cais yn unswydd i fynychu hyfforddiant, uchafswm y grant sydd ar gael fydd £2,000. Cewch ddim cynnwys costau prynu offer yn eich cyllid.

Ar gyfer ceisiadau dros £2,000, byddwn ni'n disgwyl i chi fod yn chwilio am gymorth tuag at becyn o ddatblygiad proffesiynol, wedi ei ategu gan resymeg glir. O fewn y pecyn hwn yr uchafswm grant sydd ar gael ar gyfer Hyfforddiant yw £2,000.

### Pryd cewch wneud cais

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl.

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf chwech wythnos gwaith rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Pa mor aml y cewch wneud cais

Gallwch ddal un "grant byw" o'r maes gwaith hwn a maes arall o *Grantiau'r Celfyddydau ar gyfer Unigolion Creadigol Proffesiynol* mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis. Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd cyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith. Byddwn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein. Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais.

Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Datblygiad Proffesiynol:

- Defnyddio ein system ymgeisio ar-lein
- Nodiadau Cymorth ar gyfer geisiadau Datblygu Proffesiynol
- Y Daflen Wybodaeth ar y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru